



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Trefniadau Cymorth i Fyfyrrwyr

Rhaglenni Addysg a Hyfforddiant cysylltiedig ag lechyd yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mai 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 1 Awst 2018

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar drefniadau cymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant cysylltiedig ag iechyd yng Nghymru.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb drwy:

- Lenwi'r ffurflen ar-lein
- Lawrlwytho copi o'r ffurflen ymateb a'i dychwelyd drwy e-bost i:

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
Y Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CF10 3NQ

Ebost: BwrsariaethyGIG@llyw.cymru

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i

ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair gan Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	5
Cefndir Polisi	6
▪ Sefyllfa sy'n newid	6
▪ Themâu allweddol Adolygiad Diamond	7
▪ Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Nghymru	8
Man Astudio	8
Lleoliadau Clinigol	9
Sicrhau lleoliadau o safon	9
Pynciau sy'n cael eu cwmpasu gan drefniadau Bwrsariaeth y GIG	10
Cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso	11
Cyllid ar gyfer nifer o raglenni	12
Ail radd i'r rhai sy'n derbyn cymorth cyllid myfyrwyr	12
Effaith ar Gydraddoldeb	13
Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol	14
Opsiynau	14

Rhagair gan Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Fel llywodraeth, ein nod yw gwella iechyd a lles yng Nghymru i unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu ni i weithredu ar ein huchelgais o sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau sylweddol i newid ein dulliau o driniaeth i atal. Mae hyn yn golygu bod gofyn i bawb feddwl yn wahanol am sut mae ein gwasanaethau'n gweithredu, y modelau gofal a ddefnyddir a natur y rhaglenni addysg a hyfforddiant sy'n ofynnol i gefnogi system iechyd Cymru. Mae angen i ni gynnal, a lle bo'n briodol, gynyddu nifer yr unigolion sy'n manteisio ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant fel y gallant gyfrannu at y system iechyd yng Nghymru.

Mae'n bwysig cydbwysu'r lefel o gymorth sy'n cael ei ddarparu gan drethdalwyr Cymru â'r cyfraniad a wneir gan unigolion ar ôl cymhwyso i ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru.

Rwy'n bendant bod cynaliadwyedd y GIG yn dibynnu'n helaeth ar allu'r gweithlu i ymateb i'r heriau mae'n eu hwynebu; o boblogaeth sy'n heneiddio i ddatblygiadau technegol a galw cynyddol am ofal iechyd a chymdeithasol. Mae'r hyblygrwydd yn gofyn am amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu o ansawdd uchel sy'n cael eu diweddarau'n gyson i sicrhau bod gan bob aelod o'r gweithlu y sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i wneud eu swydd hyd orau eu gallu.

Er gwaethaf degawd o doriadau i gyllideb Cymru mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n gyson mewn addysg a hyfforddiant i unigolion sy'n gweithio neu'n dymuno gweithio yn y GIG; ac fel llywodraeth byddwn yn parhau i wneud hynny. Rydym wedi dangos hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn gyda nifer y llefydd hyfforddi a gynigir yng Nghymru ar ei uchaf ers datganoli.

Mae'n bwysig sicrhau bod ein buddsoddiad yn cefnogi unigolion a'i fod yn cael ei dargedu mewn ffordd sy'n helpu drwy ddileu cymaint o rwystrau i astudio â phosibl. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig bod y trefniadau cefnogi myfyrwyr sydd ar waith yn mynd i'r afael â'r broblem sy'n rhwystro myfyrwyr rhag astudio. I wneud hyn mae angen i ni wrando ar beth mae myfyrwyr a chyflogwyr yn ei ddweud wrthym am natur y cymorth sydd ei angen.

Fel y nodwyd yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol, mae GIG Cymru'n cyflogi mwy o feddygon a nyrsys, yn trin mwy o bobl, ac mae pobl yn byw'n hirach. Y rheswm am hyn yn rhannol yw'r buddsoddiad wnaed i gefnogi unigolion i allu cymryd y cam cyntaf ar yr ysgol yrfa ar draws amrywiaeth eang o grwpiau staff sy'n gweithio yn y system iechyd a gofal yng Nghymru.

Mae'n bwysig ein bod ni'n adolygu'r trefniadau cyllido'n rheolaidd yn sgil amgylchiadau sy'n newid er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yng Nghymru'n cael y gwerth gorau am arian.

Rwy'n croesawu eich sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon.

Cefndir Polisi

Er mwyn cynnal gwasanaethau hygyrch o safon uchel mae'n rhaid i'r GIG ddenu unigolion o bob sector o'r gymuned i hyfforddi fel gweithwyr iechyd proffesiynol.

Mae hyn yn golygu y dylai'r systemau sydd ar waith i ddarparu cymorth i unigolion yn ystod eu hyfforddiant hyrwyddo ac annog mynediad i bawb, waeth beth fo'u cefndir.

Mae yna dros 300 o yrfaeodd yn y GIG sy'n ei gwneud yn system gofal iechyd gynhwysfawr sy'n achub bywydau bob dydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob unigolyn ym mhob cwr o Gymru'n gallu rhoi ei fryd ar yrfa a dilyn gyrfa yn y system gofal iechyd a chyfrannu at wasanaeth sy'n cefnogi pobl Cymru; yn aml ar adeg pan maent yn fwyaf agored i niwed.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau mor agos â phosibl at gartref cleifion. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni sicrhau bod rhaglenni hyfforddi yn cefnogi'r dull hwn.

Yn draddodiadol, rhoddwyd cymorth i fyfyrwyr gofal iechyd drwy drefniant Bwsariaeth GIG Cymru, sydd wedi darparu cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth eang o unigolion i fod yn rhan o'r GIG a'r rhwydwaith iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae'r trefniadau hyn wedi bod ar gael i unigolion sy'n dewis cael eu haddysg a'u hyfforddant yng Nghymru, mewn amrywiaeth eang o raglenni astudio cymwys. Nid yw Bwsariaeth GIG Cymru wedi arfer cefnogi unigolion o Gymru sy'n dewis astudio dros y ffin. Mae myfyrwyr sy'n cael bwsariaethau'r GIG hefyd yn gallu defnyddio elfennau o'r pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr er mwyn ategu eu costau byw.

Mewn cyferbyniad, mae unigolion sy'n astudio rhaglenni nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd yn cael pecyn cymorth gwahanol sy'n gweithredu o fewn set o drefniadau amgen sy'n seiliedig ar gyllid sy'n dilyn y myfyriwr hy byddai myfyrwyr o Gymru sy'n dewis astudio y tu allan i Gymru'n cael pecyn cymorth drwy drefniadau Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Cynllun gweinyddol yw Cynllun Bwsariaeth y GIG, a gellir newid ei fanylion yn gyflym, tra bod trefniadau cymorth i fyfyrwyr yn seiliedig ar reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch, gyda newidiadau i'r rheoliadau hynny'n cymryd 18 mis i'w gwneud.

Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae'n briodol ystyried a ddylai'r ddau gynllun barhau i weithredu'n annibynnol ar ei gilydd neu a oes cyfle i gysoni elfennau cyffredin ar draws y ddau dull.

Sefyllfa sy'n newid

Mae penderfyniad eisoes wedi'i wneud i adolygu'r trefniadau cymorth ehangach i fyfyrwyr nad ydynt yn cael bwsariaeth. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Gorffennaf 2016, arweiniodd yr Athro Syr Ian Diamond adolygiad dwy flynedd o ddulliau cyllido'r

dyfodol ar gyfer addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru ac ymgynghorodd yn eang ar faterion sy'n ymwneud â chymorth i fyfyrwyr a chyllid addysg uwch.

O fewn amserlen debyg, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i gael gwared ar gymorth bwrsariaeth seiliedig ar grant i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn addysg nyrsio, bydwreigiaeth a phroffesiynau perthynol i iechyd yn Lloegr gan gyflwyno dull seiliedig ar fenthyciadau yn ei le. Roedd hyn yn cysoni'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr yn Lloegr, ac eithrio myfyrwyr meddygol a deintyddol, nad oedd yn cael eu heffeithio gan y newid a gyhoeddwyd.

Ers 1 Awst 2017 yn Lloegr, nid yw myfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth newydd a'r rhan fwyaf o fyfyrwyr newydd y proffesiynau perthynol i iechyd yn cael bwrsariaethau'r GIG. Yn hytrach na hynny, mae ganddynt fynediad at yr un cymorth benthyciadau i fyfyrwyr â myfyrwyr eraill. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr newydd ar gyrsiau cyn-gofrestru (y rhai sy'n arwain at gofrestru gydag un o'r rheoleiddwyr proffesiynol iechyd).

Bydd myfyrwyr o Loegr sydd â gradd ac sy'n bwriadu astudio pwnc nyrsio, bydwreigiaeth neu broffesiwn perthynol i iechyd fel ail radd bellach yn gallu manteisio ar fenthyciadau myfyrwyr drwy Student Finance England. Ond ni fydd y rhai sydd am astudio ail radd mewn pwnc cyffredinol nad yw'n ymwneud ag iechyd yn gallu manteisio ar fenthyciadau myfyrwyr am yr eildro.

Arweiniodd y penderfyniad hwn gan Lywodraeth y DU at gyfres o oblygiadau ledled y DU, yn enwedig i'r trefniadau cyllido cyfatebol, gan olygu nad oedd myfyrwyr o Gymru sy'n astudio rhaglenni cysylltiedig ag iechyd sy'n cael eu hariannu gan Loegr bellach yn gymwys i gael cyllid.

Cyhoeddwyd trefniadau interim i fyfyrwyr yng Nghymru ar gyfer 2017/18 a 2018/19 tan i adolygiad/ymgynghoriad gael ei gynnal ar y trefniadau ar gyfer darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr gofal iechyd yn y tymor hwy.

Themâu allweddol Adolygiad Diamond

Mae'r newidiadau i drefniadau Bwrsariaeth yn Lloegr a chanlyniad Adolygiad Diamond wedi darparu cyd-destun ar gyfer adolygu trefniadau Bwrsariaeth GIG Cymru. Roedd adroddiad terfynol Adolygiad Diamond, a gyhoeddwyd ar 27 Medi 2016, yn nodi rhai argymhellion allweddol a fyddai'n llywio cyllid myfyrwyr Cymru yn y dyfodol. Mae'r argymhellion ar gymorth i fyfyrwyr, a dderbyniwyd i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru, wedi llywio'r prif becyn cymorth a fydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru o 2018/19 ymlaen.

Ar 11 Gorffennaf, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y bydd cydbwysedd y cymorth yn symud o ffioedd hyfforddi i gostau byw. Bydd hyn yn cael ei ddarparu ar ffurf pecyn cymorth mwy cynhwysfawr ar gyfer costau byw, yn gysylltiedig â'r Cyflog Byw Cenedlaethol, i fyfyrwyr cymwys sy'n hanu o Gymru. Bydd pob myfyriwr cymwys yn gallu derbyn yr un faint o gymorth, a fydd yn gymysgedd o grant a benthyciad. Bydd y lefel uchaf o grant yn cael ei chyfeirio at fyfyrwyr o'r cefndiroedd incwm isaf, a phob myfyriwr amser llawn yn cael isafswm grant o

£1,000. Bydd y trefniadau hyn yn weithredol i fyfyrwyr newydd o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen. Amlinellwyd y newidiadau mewn [adroddiad terfynol](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yng Nghymru

Ar 9 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon y byddai Bwrsariaeth y GIG yn cael ei chynnal yng Nghymru. Cadarnhawyd y byddai Bwrsariaeth gyfredol y GIG ar gael i'r unigolion hynny sy'n dewis astudio rhaglen gysylltiedig ag iechyd gymwys yng Nghymru sy'n dechrau ym mis Medi 2017.

Mae hyn yn seiliedig ar unigolion yn ymrwymo ymlaen llaw i fanteisio ar y cyfle i weithio yng Nghymru am gyfnod o ddwy flynedd ar ôl cymhwyso. Nid yw unigolion nad oedd yn teimlo eu bod yn gallu ymrwymo i ddarparu dwy flynedd o wasanaeth yn gymwys i gael manteision Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru; fodd bynnag, mae myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd yn y sefyllfa hon yn gallu manteisio ar y pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr sydd i'w gael gan Cyllid Myfyrwyr Cymru. [Efallai y bydd myfyrwyr sy'n hanu o lefydd eraill yn gallu cael cymorth gan eu swyddfa cyllid myfyrwyr lleol].

Ar 9 Mai, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i gadw Cynllun Bwrsariaeth cyfredol GIG Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

Bwriad yr estyniad oedd galluogi mwy o waith manwl i roi ystyriaeth bellach i'r trefniadau tymor hir yn sgil canlyniadau Adolygiad Diamond, yn cynnwys proses ymgynghori lawn, i sicrhau bod y trefniadau cymorth ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd yn addas i'r diben ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

Gallwch gael manylion am Gynllun cyfredol GIG Cymru yma.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/866/Welsh%20-%20Terms%20and%20Conditions%20-%20final%20v%204.pdf>

1. A ddylai Llywodraeth Cymru barhau i ddarparu cymorth i'r rhai sy'n astudio rhaglenni cysylltiedig â gofal iechyd?

Man Astudio

Ar hyn o bryd mae trefniadau Bwrsariaeth y GIG ar gael i unigolion sy'n dewis astudio ar raglenni cymeradwy yng Nghymru, nid ydynt yn gyffredinol yn cynorthwyo unigolion o Gymru sy'n dewis astudio dros y ffin.

Heb gynnwys nifer bach o raglenni addysg a hyfforddiant nad ydynt yn cael eu darparu yng Nghymru, mae sylwadau wedi dod i law Llywodraeth Cymru gan unigolion sydd wedi methu â chael lle ar raglen addysg a hyfforddiant cysylltiedig ag iechyd yng Nghymru. Cafwyd sylwadau gan unigolion bod y polisi cyfredol yn cefnogi'r rhai sy'n astudio yng Nghymru yn hytrach na chefnogi unigolion o Gymru

waeth lle maent yn dewis astudio, sef y dull a fabwysiadwyd ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn ymwneud ag iechyd.

Mae Bwrsariaeth y GIG bob amser wedi'i darparu ar sail lleoliad yr hyfforddiant yn hytrach nag o le mae'r unigolion sy'n cael yr hyfforddiant yn hanu. Ni chyflwynwyd unrhyw newid i'r polisi yn hyn o beth.

Mewn blynyddoedd a fu, byddai cymorth yn cael ei ddarparu drwy drefniadau cyfatebol ledled y DU, ond yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r trefniadau Bwrsariaeth yn Lloegr, a'r trefniadau cyfatebol o ganlyniad i hynny, roedd angen cytuno ar drefniadau cyllido i unigolion o Gymru sy'n dewis astudio mewn mannau eraill. Bryd hynny, penderfynwyd cadw'r dull polisi y byddai cymhwysedd ar gyfer Bwrsariaeth yng Nghymru yn parhau i gael ei gynnig i unigolion sy'n dewis astudio yng Nghymru. Roedd modd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio mewn mannau eraill gael mynediad at y trefniadau cyllid myfyrwyr ehangach.

2. Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i seilio unrhyw drefniadau Bwrsariaeth sy'n cael eu sefydlu ar gyfer y dyfodol ar gefnogi unigolion sy'n dewis astudio yng Nghymru, waeth o le maent yn hanu?

Lleoliadau Clinigol

Mae'r rhaglenni sy'n cael eu cefnogi gan Fwrsariaeth GIG Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys lleoliadau clinigol sy'n rhan orfodol o'r astudiaethau. Mae'r lleoliadau hyn yn ymestyn y flwyddyn academaidd i fyfyrwyr gofal iechyd; maent yn cynnwys oriau anghymdeithasol ac yn lleihau'r amser sydd gan fyfyrwyr i gael gwaith rhan-amser i'w helpu â chostau byw.

Mae lleoliadau'n ffordd sylfaenol o sicrhau bod myfyrwyr yn dod yn gyfarwydd â'r amgylcheddau y byddant yn gweithio ynddynt ar ôl cymhwyso, yn gallu dysgu'r sgiliau sydd eu hangen yn y swydd ac yn cael profiad o ymdrin â chleifion, amrywiaeth o weithwyr proffesiynol a'r gymuned ehangach.

Mae gan fformat cyrsiau gofal iechyd y potensial i gynyddu costau sy'n gysylltiedig â gofal plant, teithio a chostau byw cyffredinol eraill. Mae'r trefniadau cyfredol yn cynnwys elfen o gyllid ychwanegol i gydnabod effaith lleoliadau, a bydd angen rhoi sylw i hyn mewn unrhyw drefniadau yn y dyfodol.

3. Ydych chi'n cytuno y dylai fformat cyrsiau gofal iechyd gael ei gydnabod a chael sylw drwy unrhyw drefniadau yn y dyfodol?

4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar sut i fynd i'r afael â hyn?

Sicrhau Lleoliadau o safon

Mae safon lleoliadau mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant cysylltiedig ag iechyd yn allweddol i sicrhau bod unigolion sy'n dewis dilyn gyrfa yn y system iechyd yng

Nghymru yn cael eu hyfforddi i'r safon ofynnol. Er mwyn gallu cynnal safon mae'n bwysig nad yw'r lleoliadau a gynigir y tu hwnt i allu'r system i gyflawni nac yn arwain at wanhau uniondeb trefniadau'r lleoliadau. Mae'n bwysig hefyd nad yw'r GIG yn cael ei orlethu gan yr angen i gefnogi myfyrwyr gyda'r perygl o ddirywio darpariaeth gwasanaethau. Mae angen sicrhau hefyd fod gan unigolion sy'n cael cymorth i gwblhau hyfforddiant yng Nghymru ddisgwyliad realistig y bydd cyfle iddynt gael gwaith yma ar ôl cwblhau eu rhaglenni astudio.

Ni fyddai sefyllfa lle byddai yna lawer mwy o lefydd hyfforddi na chyfleoedd cyflogaeth ar gael mewn proffesiwn penodol, a hynny ar draul hyfforddi unigolion mewn proffesiynau eraill, yn sefyllfa dda o gwbl. Mae angen cydbwysedd felly. Ar hyn o bryd, mae lefel y lleoliadau yn cael ei rheoli drwy'r trefniadau comisiynu blynyddol. Er bod angen mwy o leoliadau ar draws yr amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, mae angen gwneud hyn mewn ffordd wedi'i rheoli. Y dewis arall fyddai caniatáu nifer anghyfyngedig o lefydd, heb unrhyw allu i reoli'r goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill i Gymru. Nid ydym wedi'n hargyhoeddi mai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y buddsoddiad yn gweithredu i'r eithaf.

5. Ydych chi'n cytuno y dylid parhau i reoli capasiti lleoliadau drwy broses gomisiynu, a fyddai yn y dyfodol yn cael ei harwain gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn y dyfodol?

Pynciau sy'n cael eu cwmpasu gan drefniadau Bwrsariaeth y GIG

Mae trefniadau Bwrsariaeth cyfredol GIG Cymru'n cefnogi nifer cyfyngedig o raglenni cysylltiedig ag iechyd, sydd wedi'u nodi isod. Er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad sydd ar gael yn gweithredu i'r eithaf i gefnogi addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol roedd rhaid nodi'r rhaglenni sy'n gymwys am gymorth Bwrsariaeth.

- ciropodydd (yn cynnwys podiatrydd)
- deietegydd
- therapydd galwedigaethol
- ffisiotherapydd
- radiograffydd
- gwyddonydd gofal iechyd
- parafeddyg
- therapydd iaith a lleferydd
- cydymaith meddygol
- ymarferydd yr adran lawdriniaethau
- hylenydd deintyddol neu therapydd deintyddol
- nyrs neu fydwraig
- meddyg neu ddeintydd (cymwys am fwsariaeth yng nghamau diweddarach hyfforddiant)

Roedd y GIG yn dioddef yn sgil ei lwyddiant ei hun mewn sawl ffordd, gyda mwy yn cael ei ddisgwyl ganddo bob blwyddyn. Bydd bob amser angen i unigolion gwblhau addysg a hyfforddiant i'w galluogi i gyflawni swyddi proffesiynol yn y GIG ac yn y system iechyd a gofal ehangach yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi

parhau i fuddsoddi yn hyn, ond bydd angen gwneud dewisiadau bob amser o ran lle yn union i dargedu'r buddsoddiad hwnnw.

Mae'n bwysig bod unrhyw fethodoleg sy'n sail i benderfyniadau am fuddsoddiad yn ceisio gwneud y gorau o'r adnodd sydd ar gael ac yn adlewyrchu newidiadau i'r gofynion o ran y gweithlu yn sgil newidiadau i fodolau darparu gwasanaethau, demograffeg a datblygiadau technegol.

O fis Hydref 2018 ymlaen bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru'n arwain ar y gwaith o gynllunio'r gweithlu'n strategol yng Nghymru ac yn gyfrifol am ystyried sut a phryd i fuddsoddi mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant cysylltiedig ag iechyd.

Bydd yn bwysig i'r sefydliad newydd hwn weithredu yn dryloyw iawn er mwyn sicrhau hygrededd ledled GIG Cymru a'r sector addysg ehangach.

Isod, nodir nifer o ddulliau y gellid eu mabwysiadu i lywio penderfyniadau buddsoddi. Rydym yn croesawu'ch sylwadau ar bob opsiwn isod ac unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hargymhell.

- Cynnal y rhestr gyfredol o raglenni.
- Diwygio'r rhestr o raglenni cymwys bob blwyddyn ar sail blaenoriaethau a nodir yn y system iechyd.
- Cytuno ar restr graidd fel un safonol gyda'r potensial i ychwanegu rhaglenni blaenoriaeth yn ôl yr angen.
- Cyfyngu i'r rhaglenni hynny sy'n arwain at gofrestru ac felly ni fydd unigolion yn gallu ymarfer yn eu proffesiwn dewisedig os nad yw'r cymhwyster ganddynt.

6. Pe bai Bwrsariaeth y GIG yn parhau yn y dyfodol, pa fethodoleg a ddylid ei defnyddio i benderfynu pa raglenni addysg a hyfforddiant y dylid eu cefnogi drwy drefniadau cymorth i fyfyrwyr iechyd diwygiedig?

7. Oes yna ddulliau eraill y gellid eu defnyddio? Os oes, nodwch nhw os gwelwch yn dda.

Cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso

Yn 2017 newidiwyd meini prawf cymhwysedd Bwrsariaeth GIG Cymru drwy ofyn i unigolion sy'n dymuno astudio yng Nghymru ymrwmo i weithio yma am hyd at ddwy flynedd ar ôl cwblhau eu rhaglen gysylltiedig ag iechyd.

Mae'r trefniadau hyn yn ceisio sicrhau bod unigolion sy'n elwa ar y cymorth a roddir o dan y Fwrsariaeth yn darparu lefel o fuddsoddiad yn y gwasanaethau yng Nghymru ar ôl iddynt gymhwyso'n llawn.

Nid yw'r trefniadau newydd yn golygu na all unigolion astudio yng Nghymru, ond mae'n golygu y bydd yr unigolion hyn yn cael eu cyllido drwy'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr safonol yn hytrach na threfniadau estynedig Bwrsariaeth y GIG.

8. Ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw becyn cymorth sy'n cael ei roi i fyfyrwyr gofal iechyd barhau i ofyn i unigolion ymrwymo i gyfnod cymesur o gyflogaeth ar ôl cymhwyso yng Nghymru?

Ar hyn o bryd, mae'r cyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso yn awgrymu bod rhaid i'r gyflogaeth yng Nghymru fod yn yr un proffesiwn â phwnc y cwrs a astudiwyd. Gall y gyflogaeth hon fod o fewn ystod o leoliadau gan gynnwys unrhyw Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd y GIG, contractwyr gofal sylfaenol, gweithio i awdurdod lleol a darparwyr gofal iechyd elusennol. Ar hyn o bryd, nid yw'r cartrefi gofal annibynnol yn gymwys yn y maen prawf cyflogaeth hwn, er y cydnabuwyd hefyd fod anawsterau lu wrth geisio recriwtio nyrsys cofrestredig i gartrefi gofal.

9. Ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn y meini prawf ar ôl cymhwyso i gynnwys lleoliadau cyflogaeth eraill?

10. Os felly, nodwch y lleoliadau hyn. (Byddai hefyd o fudd pe gallech roi rhesymau dros bob un o'r lleoliadau newydd)

Cyllid ar gyfer nifer o raglenni

Mae trefniadau cyfredol Bwrsariaeth y GIG yn gwneud darpariaeth i unigolion gael cyllid i ymgymryd ag ail raglen addysg yn amodol ar reolau cymhwysedd. O ystyried yr anawsterau ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru, gallai hyn arwain at lefydd yn cael eu cymryd gan unigolion sydd eisoes wedi cael cymorth ariannol tra bod unigolion eraill yn methu â chael lle ar raglen gysylltiedig ag iechyd.

11. Ydych chi'n credu y dylai unigolion sy'n cael cymorth ar gyfer rhaglen gychwynnol allu cael cymorth drwy drefniant Bwrsariaeth i ymgymryd â rhaglenni addysg a hyfforddiant ychwanegol? Ydw / Nac ydw

12. Os ydych, a ydych yn credu y dylid ond cefnogi ail raglen a rhaglenni dilynol pan fo'r system iechyd yng Nghymru yn profi anawsterau â chapasiti'r gweithlu mewn meysydd penodol?

Ail radd i'r rhai sy'n derbyn cymorth cyllid myfyrwyr

Yn gyffredinol, nid yw myfyrwyr sydd â gradd gyntaf yn gymwys i dderbyn cyllid myfyrwyr er mwyn astudio ail gymhwyster ar lefel gyfwerth. Gwneir rhai eithriadau ar gyfer cyrsiau meddygol a deintyddol, milfeddygol a phensaerniaeth. Ymgynghorwyd hefyd ar y posibilrwydd o ymestyn cymorth ar gyfer myfyrwyr ar amrywiaeth o gyrsiau yn gynharach yn 2016 (<https://beta.llyw.cymru/cymorth-ar-gyfer-astudiaethau-ol-radd-graddau-peirianeg-technoleg-neu-gyfrifiadureg-rhan-amser>)

Yn dilyn yr ymatebion a gafwyd, bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig pecyn o gymorth rhan-amser i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cyrsiau gradd arhwydedd rhan-amser

mewn sawl pwnc o 2017/18 ymlaen, gan gynnwys pynciau perthynol i feddygaeth. Bydd y rhestr o bynciau'n cael ei hadolygu'n barhaus.

Roedd Bwrsariaethau NHS England yn arfer cefnogi unrhyw ddeiliaid gradd gyntaf a oedd yn dymuno astudio rhaglen gofal iechyd yn Lloegr waeth a oedd gan y myfyriwr gymhwyster cyfwerth ai peidio. Fodd bynnag, pan gyflwynwyd y newidiadau a oedd yn cael gwared ar gymorth bwrsariaeth yn Lloegr, cyflwynodd Llywodraeth y DU eithriad newydd a oedd yn galluogi myfyrwyr oedd yn hanu o Loegr i gael cymorth wrth astudio cyrsiau gofal iechyd fel ail radd.

Ar hyn o bryd nid yw'r eithriad hwn ar gael i fyfyrwyr amser llawn sy'n hanu o Gymru ac sy'n astudio cyrsiau gofal iechyd fel ail radd yn Lloegr neu sy'n astudio yng Nghymru ond wedi dewis peidio â chael bwrsariaeth y GIG. Bydd myfyrwyr sy'n dewis cael y bwrsariaeth hon, a myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gofal iechyd rhan-amser, yn gymwys am gymorth waeth a oes ganddynt gymhwyster cyfwerth ai peidio.

13. A ddylid cyflwyno eithriad i alluogi deiliaid gradd gyntaf sy'n dymuno astudio ail radd ar raglen gofal iechyd yn Lloegr gael cymorth i fyfyrwyr, tra nad yw myfyrwyr nad ydynt yn astudio cyrsiau gofal iechyd yn gymwys am gymorth ychwanegol?

14. A ddylai'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer ail becynnau cymorth a phecynnau cymorth dilynol ar gyfer rhaglenni cysylltiedig ag iechyd fod yn amodol ar unigolion yn ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl iddynt gymhwyso?

Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disodli cyfreithiau gwrthwahaniaethu blaenorol, gan gyfuno'r cyfan mewn i un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn cynnwys gwahaniaethu ar sail oedran, anabledd, rhywedd ac ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Yr enw a roddir i'r categorïau hyn yn y Ddeddf yw 'nodweddion gwarchoddedig'.

Mae adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar y sector cyhoeddus (a elwir hefyd yn ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, yn ogystal â 'dyletswydd gyffredinol'), i ystyried yr angen i wneud y canlynol wrth weithio:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt.
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt.

15. Ydych chi'n credu bod angen ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu polisi yn y maes hwn yn y dyfodol? Ydw / Nac ydw

16. Os 'ydw', nodwch y materion y dylid eu hystyried.

Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol

Ar hyn o bryd, mae unigolion sy'n astudio cwrs meddygol neu ddeintyddol israddedig yn gymwys am gyllid gan y GIG ym mlwyddyn pump, neu o ail flwyddyn eu cwrs os ydynt ar raglen mynediad i raddedigion. Maent yn cael eu cefnogi drwy'r trefniadau cyllid myfyrwyr am weddill eu rhaglenni.

Wrth ystyried y trefniadau ar gyfer ariannu rhaglenni cysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol, gofynnir am sylwadau ynghylch a ddylid defnyddio unrhyw set ddiwygiedig o drefniadau ar gyfer rhaglenni addysg a hyfforddiant cysylltiedig ag iechyd ar gyfer y rhaglenni addysg feddygol a deintyddol i israddedigion yn llawn.

17. A ddylai cymorth i raglenni meddygol a deintyddol israddedig gael eu cysoni â rhaglenni eraill cysylltiedig ag iechyd yn y dyfodol?

Opsiynau

Mae nifer o ddulliau o gefnogi myfyrwyr gofal iechyd wedi'u nodi isod.

18. Pa un o'r opsiynau a gynigir sydd fwyaf priodol ar gyfer cynnal gweithlu'r GIG yng Nghymru yn yr hirdymor?

1. Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr, drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn yr un ffordd â myfyrwyr eraill. Ni fyddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.
2. Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Ni fyddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.
3. Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.
4. Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol a chyllid rhannol ar gyfer ffioedd dysgu (ee 50%) drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu ffioedd dysgu llawn hyd at uchafswm ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

5. Myfyrwyr gofal iechyd yn cael y pecyn cymorth cynhaliaeth safonol drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Byddai Bwrsariaeth y GIG yn talu costau byw ac elfen ychwanegol o gyllid ar gyfer costau atodol lleoliadau clinigol. Byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.
6. Myfyrwyr gofal iechyd yn parhau i gael trefniadau cyfredol Bwrsariaeth y GIG – byddai'n rhaid i'r myfyriwr ymrwymo i gyfnod cyflogaeth ar ôl cymhwyso.

19. Oes yna opsiynau heb eu nodi a fyddai'n fwy priodol...

- i) i gefnogi myfyrwyr gofal iechyd yn ystod eu hastudiaethau? a/neu
 - ii) i annog myfyrwyr i ddilyn cyrsiau gofal iechyd yng Nghymru?
 - iii) ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y gweithlu GIG yng Nghymru?
- Nodwch**

20. Beth yw eich barn ar y cymorth ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd? A ddylid canolbwyntio ar gymorth ar gyfer ffioedd dysgu neu gostau byw?